



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Datganiadau Polisi Gweinyddol

Teitl: Polisi Prawf Bywyd i bensiynwyr sy'n byw dramor

1. Pwrpas

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd i sicrhau bod yr holl bensiynau sy'n cael eu talu yn cael eu derbyn gan y derbynnydd arfaethedig. Mae angen i ni geisio nodi unrhyw hawliadau twyllodrus posibl neu unrhyw ordaliadau pensiynau i aelodau a allai fod wedi marw, ond nid ydym wedi cael gwybod.

Ar gyfer pensiynwyr sy'n byw yn y Deyrnas Unedig, mae gan y Gronfa nifer o opsiynau sgrinio marwolaethau ar gael. Fodd bynnag, mae olrhain marwolaethau i aelodau sy'n byw dramor yn fwy heriol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer gwirio hawl pensiynwyr sy'n byw dramor i barhau i dderbyn eu pensiynau. Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnal proses prawf bywyd blynyddol i sicrhau bod pensiynwyr yn dal yn fyw ac yn gymwys i gael eu taliadau pensiwn.

2. Cwmpas y polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl bensiynwyr Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

3. Datganiad Polisi

Mae'n ofynnol i bensiynwyr sy'n byw dramor gymryd rhan mewn ymarfer prawf bywyd blynyddol i gadarnhau eu hawl i daliadau pensiwn. Mae'r broses hon yn hanfodol er mwyn atal hawliadau twyllodrus a sicrhau uniondeb y gronfa bensiwn.

4. Trefniadaeth:

Bydd y Gronfa yn gweithredu'r weithdrefn ganlynol:

Gwirio Blynyddol

- Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnal ymarfer prawf bywyd blynyddol ar gyfer pob pensiynwr sy'n byw dramor.
- Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn flynyddol o fis Ionawr i fis Mawrth, gyda dyddiad cau cwblhau wedi'i osod ar gyfer 31 Mawrth.

Dull Diofyn

- Y dull diofyn ar gyfer prawf bywyd yw trwy borth digidol EMpower Pensiynau Banc Asiant y Goron. Mae'n ofynnol i bensiynwyr gwblhau'r broses ddilysu gan ddefnyddio'r porth hwn.

Opsiwn seiliedig ar bapur

- Mae opsiwn papur ar gael i bensiynwyr sydd ddim yn gallu defnyddio'r porth digidol.
 - Rhaid i bensiynwyr sy'n dewis y dull hwn gwblhau a dychwelyd y ffurflenni papur a ddarperir yn uniongyrchol i'r gronfa bensiwn o fewn yr amserlen benodol.
1. Bydd yr opsiwn papur hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pensiynwyr yn y DU os yw gwybodaeth yn awgrymu y gallai pensiynwr fod wedi marw, ond ni all y Gronfa wirio'r wybodaeth hon.

Peidio Ymateb ac Atal Pensiwn

- Os nad yw pensiynwr yn ymateb i'r prawf o ymarfer prawf bywyd o fewn yr amserlen benodol, bydd eu taliadau pensiwn yn cael eu hatal.
- Bydd hysbysiad atgoffa yn cael ei anfon at bensiynwyr cyn i unrhyw daliadau gael eu hatal, er mwyn eu hannog i gwblhau'r broses ddilysu.
- Bydd y taliadau pensiwn yn cael eu hadfer unwaith y bydd y pensiynwr yn cwblhau'r ymarfer prawf bywyd. Ni fydd unrhyw log am daliad hwyr yn cael ei ychwanegu at y taliad hwn.

5. Adolygu a diwygio

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i ddiwygio yn ôl yr angen i sicrhau ei effeithiolrwydd a'i gydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol.

6. Manylion Cyswllt:

Gall aelodau gysylltu â'r Gronfa ar unrhyw adeg i gael cymorth gyda'r polisi hwn.

- **Ffôn** 01286 679982
- **E-bost:** pens@gwynedd.llyw.cymru
- **Gwefan:** www.cronfabensiwngwynedd.llyw.cymru

Cymeradwywyd gan: [Enw] Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dyddiad: